Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Garnant House LLP**

**75 Heol Cwmaman**
**Y Garnant**
**Rhydaman**
**SA18 1ND**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

01/02/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Garnant House LLP

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Garnant House LLP |
| Lleoedd cofrestredig | 21 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Mewnosod â llaw |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae pobl a'u teuluoedd yn fodlon ar y gofal a chymorth y maent yn eu cael gan y gwasanaeth. Mae'r staff gofal yn dangos dealltwriaeth dda o anghenion gofal pob unigolyn ac yn barchus ac yn ofalgar. Mae pobl a'u teuluoedd neu gynrychiolwyr yn cael eu diweddaru a'u hysbysu'n rheolaidd am unrhyw newidiadau i anghenion gofal a chymorth.

Mae pobl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y cartref a thu allan i'r cartref, ond mae'r rhain yn gyfyngedig ar hyn o bryd o ganlyniad i'r pandemig.

Mae'r cartref yn gynnes ac yn gyfforddus ac mae'r bobl yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel. Mae systemau ar waith i sicrhau bod y safle a'r offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol ac ymgymerir ag unrhyw faterion wrth iddynt godi.

Mae'r rheolwr a'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr unigolyn cyfrifol, sy'n ymweld â'r cartref yn rheolaidd. Mae'r unigolyn cyfrifol o hyd yn ceisio cynnal a gwella profiadau a llesiant y bobl sy'n byw yn y cartref.

## Llesiant

Mae gan bobl ddewis a rheolaeth dros y rhan fwyaf o agweddau ar eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae cynlluniau gofal manwl yn hysbysu staff gofal am sut i ofalu a rhoi cymorth i bobl i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Cyn bod unigolyn yn symud i safle'r gwasanaeth, bydd uwch-reolwyr yn casglu gwybodaeth oddi wrth yr unigolyn a'i deulu i sicrhau bod gan staff gofal ddealltwriaeth dda o'r unigolyn. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau gan y staff gofal i helpu pobl i sicrhau bod pawb yn gwybod am eu hoffterau. Er enghraifft, defnyddir cardiau â lluniau bwyd arnynt i sicrhau bod unigolion ag anawsterau cyfathrebu'n bwyta'r prydau bwyd o'u dewis. Dywedodd y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym fod y bwyd yn hyfryd. Dywedodd un unigolyn wrthym, *“Mae'r merched yn dda. Rwy'n hoffi cael fy nhe yn felys ond ddim yn rhy felys heb ormod o siwgr. O bryd i'w gilydd, byddaf yn gofyn am frechdan ac maent yn dda ac yn gwneud un.”* Dyfarnwyd sgôr hylendid bwyd Lefel 5 yn ystod yr arolygiad diwethaf.

Mae annibyniaeth ac ymreolaeth pobl yn cael eu gwerthfawrogi ac fe’u hanogwyd i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau. Gall hyn fod yn weithgareddau yn y cartref neu eu cefnogi a'u grymuso i fynd i siopau lleol a mannau hamdden sydd o ddiddordeb iddynt.  Mae rhai pobl yn dewis treulio amser yn cymdeithasu mewn ardaloedd cymunol o'r cartref tra bo’n well gan eraill fod ar eu pen eu hunain yn eu hystafelloedd.

Caiff iaith a diwylliant pobl eu parchu. Mae nifer o bobl sy'n gweithio ac yn byw yn y gwasanaeth yn siarad Cymraeg a gwneir pob ymdrech i sicrhau bod pobl yn gallu defnyddio'r Gymraeg, sy'n helpu unigolion i deimlo'n gartrefol. Dywedodd un berthynas wrthym, *“Mae'r staff yn siarad Cymraeg ag ef ac mae hynny'n ei gysuro. Ymgartrefodd yn gyflym iawn.”* Cydnabyddir ieithoedd eraill hefyd ac mae ffeiliau personol wedi cael eu cyfieithu i'r Arabeg a'r Almaeneg yn ogystal â Chymraeg.

Mae pobl wedi gallu cadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd yn ystod y pandemig. Mae’r unigolyn cyfrifol wedi deall pwysigrwydd cadw mewn cysylltiad ac wedi bod yn rhagweithiol wrth alluogi hyn.  Diweddarwyd y rhwydwaith Wi-Fi a phrynwyd offer digidol i hwyluso'r cyswllt rhwng pobl a'r unigolion sy'n bwysig iddynt drwy FaceTime a Zoom. Dywedodd perthnasau pobl sy'n byw yn y cartref wrthym eu bod yn hapus iawn â'r gofal mae'u haelodau teulu yn ei dderbyn. Dywedodd un unigolyn wrthym, *“Ni allem ofyn am well.”*

## Gofal a Chymorth

Mae’r bobl yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol a naturiol rhwng staff gofal a phobl sy’n byw yn y gwasanaeth gyda thipyn o dynnu coes a chwerthin. Dywedodd un unigolyn wrthym, *“Rwy'n hapus yma. Mae'n lân ac yn ffres. Mae hi [y rheolwr] yn dda iawn.”* Dywedodd aelod teuluol wrthym, *“Mae Mam yn derbyn gofal da iawn ac mae wedi bod yn y cartref hwn ers mis Gorffennaf. Ers iddi ddod yma, mae wedi magu pwysau ac yn edrych yn llawer iachach. Mae ganddi fochau coch eto.”*

Mae uwch-aelodau o staff yn cwblhau asesiadau gyda darpar breswylwyr cyn iddynt symud i'r cartref. Gwelsom gynlluniau gofal manwl a oedd wedi'u diweddaru ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac a oedd yn cynnwys gwybodaeth wedi'i chasglu gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, yr unigolyn a'i deulu pan fo modd. Roedd y cynlluniau gofal yn cynnwys hanes cymdeithasol yr unigolyn gyda hen ffotograffau sy'n bwysig i'r unigolyn ac sy'n cael eu defnyddio i sbarduno atgofion a thrafodaethau. Gwelsom asesiadau risg diweddar a oedd yn hyrwyddo llesiant pobl trwy eu grymuso i fod mor annibynnol â phosibl.  Mae teuluoedd yn cael eu hysbysu a’u diweddaru am unrhyw newidiadau i anghenion gofal a chymorth dros y ffôn a thrwy gylchlythyrau rheolaidd ac yn cael eu hannog i ymweld â'u perthnasoedd ar unrhyw adeg. Dywedodd perthynas wrthym, *“Rwy'n siarad ag ef trwy'r amser.”*

Mae cofnodion dyddiol yn cael eu cwblhau ond nad ydynt yn fanwl iawn ac nid ydynt yn rhoi darlun llawn o weithgareddau dyddiol yr unigolyn. Dywedodd yr unigolyn cyfrifol wrthym y bydd system cynllunio gofal ar-lein yn cael ei defnyddio o fis Mawrth a fydd yn galluogi staff i ddiweddaru cofnodion gofal dyddiol yn electronig trwy ddefnyddio llechen. Mae'r unigolyn cyfrifol yn gobeithio y byddai hyn yn ei gwneud hi'n haws i'r staff ysgrifennu cofnodion gofal dyddiol mwy manwl.

Mae'r pandemig wedi cael effaith ar weithgareddau grŵp ac ymweliadau ond mae'r staff gofal yn parhau i roi cyfleoedd i unigolion. Yn ddiweddar, aeth y cydlynydd gweithgareddau ag un unigolyn i'r siop lyfrau leol ac unigolyn arall i wneud ychydig o siopa. Maent hefyd yn ymweld â'r sinema leol yn ystod y diwrnodau pan fydd yn dangos hen ffilmiau ac yn mynd i foreau coffi lleol a drefnwyd gan grŵp cymorth clefyd Alzheimer. Mae'r gweithgareddau eraill a ddarperir gan y cartref yn cynnwys Dobble, gweithgareddau balŵn (ar gyfer cydsymud llaw a llygad), canu, ac ymarferion tai chi mewn cadair.

Mae mecanweithiau ar waith i ddiogelu pobl rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Mae gan staff wybodaeth a dealltwriaeth dda ynghylch diogelu, a'r broses o adrodd unrhyw bryderon sydd ganddynt i amddiffyn pobl.

Mae system effeithiol ar waith ar gyfer rhoi meddyginiaethau. Roedd y cofnodion yr edrychwyd arnynt yn gywir, heb unrhyw fylchau, ac roedd llun o'r unigolyn ar bob un o'r

ffeiliau meddyginiaeth. Mae'r cyffuriau a reolir yn cael eu storio mewn coffor ond nid oedd yn ddiogel ac y gellid ei symud o'r ystafell feddyginiaeth. Cafodd hyn ei drafod gyda'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr ac y maent yn dweud wrthym fod cadwyn wedi ei harchebu i gywiro'r sefyllfa hon.

## Yr Amgylchedd

Mae pobl yn derbyn gofal mewn cartref sy'n lân, cynnes a chyfforddus. Mae cynllun y cartref yn galluogi pobl i symud o gwmpas yn rhydd ac yn ddiogel, sy'n helpu i gynnal annibyniaeth y bobl. Mae lifft newydd wedi'i osod yn ddiweddar.
Mae pobl yn dewis treulio eu hamser yn eu hystafelloedd neu eistedd yn y mannau cymunol. Mae estyniad a gwblhawyd yn ddiweddar yn cynnig cyntedd mawr, lolfa olau ac agored ychwanegol, a dwy ystafell wely ychwanegol. Fodd bynnag, byddai rhai ardaloedd yn elwa o gael eu hailaddurno; mae'r gwelliannau'n parhau. Mae'r gwaith a gynlluniwyd yn cynnwys: lloriau newydd ar y llawr daear i gyd-fynd â'r lolfa a derbynfa newydd, cadeiriau newydd ar gyfer y lolfeydd, a gwaith ailaddurno ac ailosod cyfleusterau'r ystafell ymolchi a chawod ar y llawr daear. Bydd system goleuadau LED hefyd yn cael ei gosod trwy gydol y cartref yn lle'r un presennol.

Caiff pobl eu hannog i addurno eu hystafelloedd gwely ag eiddo personol a dodrefn o'u dewis. Roedd soffa a bwrdd coffi yn un o'r ystafelloedd gwely gan fod yn well gan yr unigolyn dreulio amser yn ymlacio yn ei hystafell. Defnyddir gardd mewn cyflwr da sydd ag ardal eistedd yn ystod tywydd twym.

Dengys y cofnodion cynnal a chadw fod gwiriadau'n cael eu cynnal yn rheolaidd o amgylch y cartref er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw faterion a bod rhestr wirio gynhwysfawr yn cael ei harddangos yn swyddfa'r rheolwr. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r gweithiwr cynnal a chadw yn rhoi sylw i fesurau rheoli dyddiol, wythnosol a misol a chwblheir unrhyw waith sy'n gofyn am wybodaeth arbenigol gan unigolion cymwys sy'n gyfarwydd â'r cartref.

Mae gweithdrefnau rheoli heintiau ar waith ac mae gweithwyr gofal yn defnyddio'r holl gyfarpar diogelu personol angenrheidiol wrth ddarparu gofal personol. Mae pobl yn ddiogel rhag ymwelwyr diawdurdod sy'n dod i mewn i'r adeilad. Rhaid i bob ymwelydd ganu'r gloch ar y drws ffrynt cyn cael mynediad a chofnodi eu bod wedi cyrraedd yn y llyfr ymwelwyr wrth ddod i mewn. Mae cyfarpar diogelu personol a hylif diheintio dwylo ar gael i'r holl staff ac ymwelwyr ledled y cartref.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr yn adolygu ansawdd y gofal a chymorth yn rheolaidd. Mae adroddiad chwarterol statudol yr unigolyn cyfrifol yn dangos ei fod yn siarad â phobl sy'n byw yn y cartref ac y bydd yn gweithredu ar yr hyn y mae pobl yn ei ddweud. Mae hyn wedi cynnwys symud unigolyn i ystafell wahanol. Mae pobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref yn cadarnhau eu bod yn siarad â'r unigolyn cyfrifol ac yn dweud ei fod yn hawdd mynd ato. Mae'r rheolwr yn gwerthfawrogi cymorth yr unigolyn cyfrifol a'i wraig: *"Rydym yn gofyn am unrhyw beth sydd ei angen arnom ac maent yn ei ôl. Mae'r holl staff a'r teuluoedd yn adnabod y perchnogion. Mae ef [yr unigolyn cyfrifol] yn dda iawn ac yn gwneud yn siŵr ei fod yn cyflwyno'i hun i deuluoedd ac unrhyw breswylwyr newydd."*

Mae'r staff yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan ei gilydd a'r uwch-staff. Dywedodd aelod o staff wrthym: *"Mae'r holl staff yn dda iawn. Rydym yn mwynhau ein hamser ac mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi bod yma am gyfnod hir.""Mae'n hawdd siarad â'r rheolwr ac rwy'n gwybod fy mod i'n gallu mynd ati am unrhyw beth."* Dywedodd aelod arall o staff, *"Y rheolwyr sy'n creu'r cartref sy'n bodoli heddiw. Mae cael rheolwyr da yn allweddol i gartref gwych fel hwn."*Mae'r staff gofal yn gymwys ac mae'r cofnodion yn cadarnhau eu bod yn derbyn yr hyfforddiant priodol er mwyn cefnogi'r bobl sy'n byw yn y cartref. Dangosodd y staff gofal y siaradwyd â nhw ddealltwriaeth dda o weithdrefnau diogelu.

Mae gweithdrefnau recriwtio cadarn ar waith. Roedd y ffeiliau staff a welwyd yn cynnwys y geirdaon priodol, llun adnabod a chontract. Dywedodd staff gofal wrthym fod ganddynt lawer o gyfleoedd hyfforddi: *"Rwyf wedi cwblhau fy nghyfnod sefydlu a thipyn o hyfforddiant ar-lein, sydd wedi bod yn wych."* Mae'r unigolyn cyfrifol yn cwblhau'r un hyfforddiant â'r staff ac yn mynychu hyfforddiant ychwanegol hefyd. Fodd bynnag, mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos nad yw rhai staff wedi cael yr hyfforddiant perthnasol diweddaraf. Mae'r rheolwr yn dweud bod yr holl staff wedi cofrestru ar system e-ddysgu'r awdurdod lleol ac y byddai'r hyfforddiant gofynnol yn cael ei gynnal dros y flwyddyn sydd i ddod i sicrhau bod y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

**Dyddiad cyhoeddi** 15/03/2022